# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 18.04.08

**Yn bresennol**: Y Cynghorwyr J.R.Jones (Cadeirydd); Tudor Owen a Gwilym Williams

**Hefyd yn bresennol:** Sion Huws, ( Swyddog Priodoldeb), Amlyn ab Iorwerth (Rheolwr Trwyddedu) ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor).

**Eraill a wahoddwyd i'r Cyfarfod:**

**Yn cynrychioli'r heddlu:** Mark Holland, (Swyddog Rhawd Cymunedol)
**Yn Cynrychioli Uned Gweinyddol a Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd,** (Alun Evans)
**Yr ymgeisydd :** David Martin Roberts, Elliw Alwyn, (partner yr ymgeisydd**)**
**Perchennog y Safle:** Arthur Parry
**Aelod lleol:** Y Cynghorydd Margaret Griffith

## 1. CAIS AM DRWYDDED EIDDO FFERM AFONWEN, PWLLHELI

Cyflwynwyd adroddiad y Rheolwr Trwyddedu ar gais am Drwydded Eiddo ar gyfer tir Fferm Afonwen, Pwllheli i ganiatáu ffilm, cerddoriaeth byw ac wedi ei recordio, a dawnsio rhwng 12:00pm a 01:00am, a'r ddarpariaeth o fwyd poeth a chyflenwi alcohol rhwng 12:00pm a 12:00 am gyda'r eiddo'n agored i'r cyhoedd rhwng 12:00pm a 01:00am.

Cyfeiriwyd at nifer y llythyrau a dderbyniwyd yn ymdrin â'r cais, a nododd y Swyddog Trwyddedu fod rhai llythyrau wedi eu diystyru gan nad oeddynt yn dderbyniol o safbwynt pellter oddi wrth y safle.

Ychwanegodd fod llythyr wedi ei dderbyn oddi wrth Adran Gynllunio Cyngor Gwynedd a oedd yn gwrthwynebu'r cais oherwydd diffyg manylion a gyflwynwyd gyda'r cais.
Ni wnaed sylwadau gan y Gwasanaeth Tân.

Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

1. Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig gan yr Adain Trwyddedu gydag argymhelliad.

2. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

3. Gwahoddwyd yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.

4. Gwahoddwyd pob Ymgynghorai i gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig

5. Rhoddwyd cyfle i'r ymgeisydd ymhelaethu ar ei gais ac yna galw tystion.

6. Rhoddwyd cyfle i aelodau'r is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd.

7. Gwahoddwyd cynrychiolydd y Cyngor i ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd.

8. Rhoddwyd cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd grynhoi eu hachos.

Atgoffwyd pawb o'r pedwar egwyddor o'r Ddeddf Trwyddedu 2003 fydd angen ei ystyried, sef:

1. Rhwystro Trosedd ac Anrhefn
2. Diogelwch y Cyhoedd
3. Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
4. Amddiffyn plant rhag niwed

Yn ymhelaethu ar y wybodaeth a dderbyniwyd oddi wrth yr Heddlu cyfeiriodd y Swyddog Rhawd Cymunedol at eu pryderon o safbwynt trafnidiaeth. Nodwyd y byddai'r fynedfa yn arwain i'r A497, sy'n ffordd brysur.

'Roedd yr Heddlu hefyd yn bryderus ynglŷn ag addasrwydd y maes parcio gan fod rhan ohono ar lethr eithaf serth. Er bod achlysuron wedi eu cynnal ar Fferm Afonwen yn y gorffennol, nododd yr heddwas nad oedd yr un ohonynt o'r maint yma.

Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd yr heddwas na fyddai'r Heddlu'n bresennol mewn achlysur ar y safle os na fyddai cais iddynt fod yno yn cael ei wneud gan Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Digwyddiadau Gwynedd.
Fodd bynnag, cadarnhaodd y Swyddog Trwyddedu y gellid gosod amod i sicrhau presenoldeb yr Heddlu.

Adroddodd Swyddog Iechyd yr Amgylchedd Cyngor Gwynedd fod 2 brif bryder ganddynt sef trafferthion a allasai godi o safbwynt y maes parcio, yn arbennig mewn tywydd gwlyb. Ychwanegodd mai'r pryder pennaf oedd y sŵn a allasai amharu ar drigolion cyfagos. Nododd fod rhai'n byw o fewn 320 medr i'r safle. Ychwanegodd fod yr Uned yn argymell y dylid gosod 9 amod ar gyfer rheoli sŵn pe byddai'r drwydded yn cael ei chaniatáu.

Adroddodd y Cynghorydd lleol fod diffyg gwybodaeth ynglŷn â'r cais yn achos pryder. Ychwanegodd nad oedd gwybodaeth fanwl ar gael ynglŷn â'r math o ddigwyddiadau fyddai'n cael eu cynnal ar y safle, na sawl diwrnod o'r flwyddyn y byddai defnydd yn cael ei wneud o'r drwydded.

Cyfeiriodd y cynghorydd hefyd at bryderon o safbwynt sŵn, diogelwch ffyrdd, ac o ystyried y byddai tua 6,000 o bobl yno, 'roedd diogelwch yn gyffredinol yn ei phryderu.

Rhoddwyd cyfle i wrthwynebwyr a oedd yn bresennol i gyflwyno sylwadau i gefnogi'r rhesymau a nodwyd ganddynt mewn llythyr. Gwnaed sylwadau gan y canlynol:
Mr T. Elwyn Griffiths,(ar ran Cyngor Cymuned Llanystumdwy), Mr Tony Hulatt, Glenydd Lôn Goed, Afonwen, Mrs Margaret Hulatt, Glenydd Lôn Goed, Afonwen, L. H. Williams, Swn y Don, Ifan ac Anne Jones, Bodarwen, Afonwen, Mrs Pamela Bateman, Hen Efail Farm, Chwilog, Mrs Elaine Cowley, 1 Penybont, Afonwen, Mr Rhys Jones, Ty'n Ffridd, Chwilog, Mrs A. Widdicombe, The Bungalow, Bryn Marsli Farm, Chwilog, M. J. Williams, 1 Pen-y-Groes, Chwilog, D.W. ac A. S. Jones, Ty'n Lôn, Afonwen, Mrs Sian Jones, Talar Deg, Chwilog, Joyce Allenby, Bryn Tirion, Chwilog.

Mynegwyd pryder ganddynt ar sail y canlynol:

- Swn mewn ardal wledig a fyddai'n amharu ar drigolion cyfagos
- Diogelwch ffyrdd
- Maes parcio anaddas
- Nifer y bobl fyddai'n bresennol mewn digwyddiad
- Peryglon o safbwynt y rheilffordd gyfagos
- Pryder ynglyn â chyfraith a threfn

Pwysleisiodd perchennog y safle ei fod wedi ystyried y sefyllfa'n fanwl, ac mai ef sy'n byw agosaf i'r tir dan sylw.
Tynnodd sylw pellach at y pwyntiau canlynol:

- Fod ganddo deulu ei hun, yn ogystal â deg o dai haf ac na fyddai am i ddim amharu ar y rhain mewn unrhyw fodd.
- Llwyddiant digwyddiadau a gynhaliwyd ar y safle yn y gorffennol a'r modd yr oedd y rhain wedi bod o werth i'r gymuned leol.
- Y modd gallasai busnesau lleol gael manteision pe byddai'r cais yn cael ei chaniatáu.
- Na fyddai'n barod i unrhyw ddigwyddiad gael ei gynnal ar y tir pe byddai trafferthion yn dod i'r amlwg.

'Roedd yr ymgeisydd a'i bartner yn awyddus i bawb sylweddoli nad gŵyl enfawr oedd dan sylw. Eglurwyd ganddynt mai'r bwriad oedd cynnal achlysur o bedair noson gyda phob noson yn achlysur ar wahân a blas gwahanol i'r gerddoriaeth bob noson. Golygai hyn y byddai'r safle'n cael ei chlirio'n gyfangwbl bob nos, ac na fyddai unrhyw un yn cysgu mewn ceir ar y safle.

Byddai'n bosib cynnal digwyddiadau eraill, gan fod y cais am Drwydded Eiddo, ond dywedodd yr ymgeisydd a'i bartner nad oedd unrhyw fwriad i gynnal digwyddiad arall o'r maint yma.

Nodwyd ganddynt ymhellach eu bod am drefnu'r achlysur pedair noson oherwydd eu cariad tuag at gerddoriaeth, a bod tîm hynod brofiadol o drefnwyr ganddynt i'w cynorthwyo.

Cyfeiriwyd at drafnidiaeth, a phwysleisiodd yr ymgeisydd y byddai stiwardiaid yno i sicrhau trefn wrth i gerbydau deithio i mewn ac allan o'r safle. Cadarnhawyd hefyd y byddai modd canslo'r gwasanaeth rheilffordd rhwng Criccieth a Phwllheli ar y pedair noson pe byddai'r ymgeisydd yn gofalu am wasanaeth bysiau rhwng y ddwy dref.

Ychwanegodd y byddai man codi'n cael ei greu ar gyfer tacsis a bysiau ger y safle.

Mewn ymateb i ymholiad, dywedodd yr ymgeisydd y byddai'r adloniant ar gyfer y pedair noson yn cael ei hysbysebu ar y we, ond y byddai'r tocynnau'n cael eu gwerthu ymlaen llaw i sicrhau na fyddai niferoedd afresymol yn cyrraedd y safle.

Pwysleisiodd yr ymgeisydd ei fod wedi cydweithio'n llawn gyda Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Digwyddiadau Gwynedd ac y byddai'n barod i ddilyn unrhyw amod. Ond cyfeiriodd at sylwadau'r Heddlu a oedd am sicrhau na fyddai neb dan 16 oed yn mynychu'r ŵyl a gofynnodd a oedd modd cael hyblygrwydd yma fel y gellid gwneud un o'r pedair noson yn un ar gyfer y teulu.

Wrth grynhoi, dywedodd y Swyddog Trwyddedu fod posib monitro lefelau swn, a bod hynny'n cael ei wneud mewn achlysuron o'r math yma.

Ystyriwyd y cais yn drylwyr gan aelodau'r Is-bwyllgor ac yn ystod y drafodaeth mynegwyd cryn bryder am y modd y gallasai sŵn amharu ar drigolion cyfagos, peryglon ffyrdd ac safle anaddas Fferm Afonwen ar gyfer achlysur o'r fath.

O ystyried tystiolaeth yr Heddlu a'r trigolion lleol ac er mwyn glynu at yr egwyddorion canlynol:

a) Rhwystro Trosedd ac Anrhefn;
b) Rhwystro Niwsans Cyhoeddus
c) Amddiffyn Plant rhag Niwed

**PENDERFYNWYD gwrthod y cais ar sail:**
**a) pryder o safbwynt trafnidiaeth yn teithio i'r safle ac oddi yno ar yr A497 sy'n ffordd brysur, gan nodi fod hyn yn unol â'r sylwadau a wnaed gan yr Heddlu,**

**b) effaith sŵn ar drigolion cyfagos a'r niwsans a allasai hyn ei achosi**
**c) pryder o safbwynt addasrwydd y safle a allasai ei gwneud yn amhosib i gerbydau deithio i'r cae neu adael y safle mewn modd diogel, yn arbennig pe byddai'r tywydd yn wlyb**
**ch) pryder o achos y trafferthion i gyd-fynd ag amodau a fyddai'n cael eu gosod mewn cysylltiad â rheoli sŵn**
**d) bod lleoliad y safle yn gwbl anaddas ar gyfer digwyddiad o'r fath ar waetha parodrwydd yr ymgeisydd i gydweithio gyda Grŵp Ymgynghorol Diogelwch Digwyddiadau Gwynedd.**

Adroddodd y Swyddog Priodoldeb yr anfonir llythyr o fewn saith diwrnod yn cadarnhau dyfarniad yr Is-bwyllgor a hysbyswyd pawb o'r hawl i apelio yn erbyn dyfarniad yr Is-bwyllgor, o fewn 21 diwrnod i dderbyn y llythyr.

Dechreuodd y cyfarfod am 10:30am a daeth i ben am 12:45pm